
# Tuedd ddiwylliannol ac ethnoganoledd



esfoster / Adobe Stock

Mae **Lauren Kwok** yn edrych ar duedd ddiwylliannol ac ethnoganoledd mewn ymchwil seicolegol

Nod seicoleg yw deall ac esbonio meddwl ac ymddygiad dynol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ymchwilwyr ystyried y ffactorau sy'n arwain at amrywiaeth rhwng pobl o gwmpas y byd. Mae ymddygiad pob person yn cael ei siapio gan amrywiaeth o newidynnau, fel ffactorau biolegol cynhenid a'r amgylchedd teuluol y cafodd ei fagu ynddo. Ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar bobl yw'r llu o fathau o ymddygiad sy'n benodol i'w grŵp diwylliannol. Er mwyn cyflawni nod seicoleg, mae angen i ymchwilwyr roi rheswm am y ffyrdd y mae gwahaniaethau diwylliannol yn effeithio ar ein meddwl a'n hymddygiad.

## Beth yw 'diwylliant'?

Mae'n bosibl diffinio diwylliant fel y gwerthoedd, y credoau a'r patrymau ymddygiad y mae grŵp ar y cyd o bobl yn eu rhannu. Fel arfer, mae disgwyliad o ran beth sy'n cael ei ddosbarthu'n 'ymddygiad cymdeithasol-dderbyniol' o fewn diwylliant. Felly mae'r disgwyliad hwn o'r hyn sy'n gallu cael ei ddosbarthu fel y 'norm' ar gyfer ymddygiad cymdeithasol yn amrywio o ddiwylliant i ddiwylliant.

O safbwynt hanesyddol, dynion gwyn, dosbarth canol o UDA sydd wedi bod fwyaf amlwg ym maes seicoleg, ac maen nhw wedi meddiannu rolau'r ymchwilwyr a'r cyfranogwyr hefyd. Gwelodd Rod Bond a Peter Smith (1996) fod 66% o'r astudiaethau ymchwil mewn sampl o lyfrau gosod seicoleg yn dod o UDA, 32% o Ewrop a dim ond 2% o weddill y byd. Wrth gwrs, efallai nad yw'r canfyddiad hwn yn berthnasol heddiw gan fod yr arolwg wedi'i wneud 25 mlynedd yn ôl. Serch hynny, mae canfyddiadau cyffredin fel hyn yn dangos sut, yn hanesyddol, mae damcaniaethau wedi cael eu llunio gan anwybyddu'r gwahaniaethau mewn ymddygiadau ar draws diwylliannau, ac mae hyn yn arwain at duedd ddiwylliannol.

## Tuedd ddiwylliannol

Tuedd ddiwylliannol yw'r duedd i farnu pobl drwy lens eich tybiaethau a'ch cefndir personol diwylliannol eich hun. Yn debyg i duedd rhywedd, mae'n bosibl gwahanu tuedd ddiwylliannol yn duedd alffa a beta. Mae tuedd alffa'n digwydd pan mae damcaniaeth yn gorliwio'r amrywiant rhwng grwpiau diwylliannol.




Cafodd tuedd ddiwylliannol wrth brofi deallusrwydd effaith ar gyflogaeth i fewnfudwyr i UDA yn y 1940au

Heritage Image Partnership Ltd / Alamy Stock Photo

Ar y llaw arall, mae tuedd beta'n codi pan mae gwahaniaethau diwylliannol arwyddocaol yn cael eu hanwybyddu neu eu lleihau. Canlyniad hyn yw dyluniadau a chasgliadau ymchwil cyffredinol sy'n tybio'n anghywir fod pob diwylliant yr un fath. Mae ymchwilwyr sydd o blaid cyffredinolrwydd yn tueddu i gynhyrchu canfyddiadau ymchwil sy'n rhoi tuedd beta gan eu bod nhw'n credu bod mecanwaith cynhenid sy'n gwneud i bob person ymddwyn yn yr un ffordd er gwaethaf eu magwraeth ddiwylliannol.

Mae tuedd beta'n gallu arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol lle mae ymchwil, yn anfwriadol, yn cefnogi arferion gwahaniaethol yn y byd go iawn drwy ddilysu stereoteipiau niweidiol. Er enghraifft, yn hanesyddol mae profion deallusrwydd wedi cael eu beirniadu'n hallt am eu tuedd beta. Gwelodd profion deallusrwydd Robert Yerkes ar recriwtiaid ar gyfer byddin UDA yn y Rhyfel Byd Cyntaf fod oedran meddyliol mewnfudwyr Ewropeaidd yn is nag Americanwyr gwyn. Yn wreiddiol, cafodd y prawf ei ddyfeisio a'i addasu i'w ddefnyddio yn UDA, ac roedd y rhai nad oedden nhw'n gyfarwydd â diwylliant America o dan anfantais arwyddocaol. Ystyriwch y cwestiwn hwn, er enghraifft: 'Mae Christy Matthewson yn enwog fel: awdur, artist, chwaraewr pêl-fas neu gomedïwr?'. Yn amlwg, mae hyn yn gofyn am wybodaeth o ddiwylliant America a dydy e ddim yn ddull dilys o fesur deallusrwydd unigolyn. Arweiniodd y canlyniadau, a oedd â thuedd ddiwylliannol, at wahaniaethu o ran cyflogaeth a hyd yn oed atal mewnfudo o rannau o Ewrop yn union cyn yr Ail Ryfel Byd. Effeithiodd hyn ar lawer o Iddewon a oedd yn ceisio ffoi rhag yr Holocost.

## Ethnoganoledd ac etig wedi'i orfodi

Ethnoganoledd yw'r duedd sydd gan ymchwilwyr i fod yn 'canolbwyntio ar ethnigrwydd'. Ystyr hyn yw nad ydyn nhw'n ddigon hyblyg o ran derbyn y syniad bod diwylliannau'n debyg iawn yn y bôn, ac felly maen nhw'n tueddu i anwybyddu gwahaniaethau diwylliannol. Mae hyn yn digwydd pan mae ymchwilydd yn ystyried bod safbwyntiau neu ymddygiad ei ddiwylliant ei hun yn 'normal'. Yna, os yw ymddygiad o ddiwylliannau eraill yn wahanol i hyn, mae'n cael ei ystyried yn abnormal, yn wyrdröedig neu'n annigonol mewn rhai achosion. Er enghraifft, mewn rhai diwylliannau, mae pobl yn byw mewn teulu cnewyllol sy'n cynnwys dwy genhedlaeth: y rhieni a'u plant. Fodd bynnag, mewn diwylliannau eraill, y norm yw byw mewn teuluoedd tair cenhedlaeth sydd wedi'u hestyn yn llawn i lawer o berthnasau sy'n cynnwys neiniau a theidiau, modrybedd, ewythredd a chefnderoedd. Ddylai dim un math o strwythur teuluol gael ei weld yn well na'r llall.

Mae ethnoganoledd yn gallu bod yn gysylltiedig â phroblem seicolegol arall mewn methodoleg ymchwil, sy'n cael ei galw'n *etig wedi'i orfodi (imposed etic)*. Syniad damcaniaethol yw lluniad 'etig' y mae pobl yn tybio ei fod yn berthnasol i bob grŵp diwylliannol. Mae'r lluniad hwn yn canolbwyntio ar fathau o ymddygiad hollgyffredinol ac yn edrych arnyn nhw y tu allan i'r diwylliannau. Ar y llaw arall, mae lluniad 'emig' yn un sy'n edrych y tu mewn i ddiwylliannau ac yn cymhwyso mathau o ymddygiad sy'n benodol i'r grŵp diwylliannol hwnnw. Mae tuedd ddiwylliannol ac ethnoganoledd yn codi pan fydd ymchwilydd yn tybio bod lluniad emig yn un etig mewn gwirionedd. Canlyniad hyn yw *etig wedi'i orfodi*, lle mae syniad penodol i ddiwylliant yn cael ei orfodi'n anghywir ar ddiwylliant arall.

## Tuedd ddiwylliannol ac ethnoganoledd mewn ymchwil seicolegol

Gallwn ni ddefnyddio gweithdrefn Sefyllfa Ryfedd (*Strange Situation*) Mary Ainsworth i asesu ymlyniad er mwyn dangos problem ethnoganoledd. Buodd hi'n arsylwi'n wreiddiol ar yr ymlyniad rhwng baban a'i fam yn Uganda, lle datblygodd hi'r syniad o ymlyniad diogel. Fodd bynnag, datblygodd hi'r syniad hwn yng nghyd-destun ymddygiadau Americanaidd rhwng mam a baban. Tybiodd hi a'i chydweithwyr eu bod nhw'n gweld ymlyniad diogel wrth i'r baban ddangos lefel gymedrol o drallod pan oedd yn cael ei wahanu oddi wrth y prif ofalwr.

Arweiniodd hyn at gamddehongli ymddygiadau magu plant o ddiwylliannau eraill os oedden nhw'n wahanol i'r 'norm' Americanaidd. Er enghraifft, ailadroddodd Keiko Takahashi (1990) y Sefyllfa Ryfedd gyda 60 o famau dosbarth canol Japaneaidd a'u babanod. Defnyddion nhw drefn safonedig a chategorïau ymddygiadol Ainsworth. Roedd y cyfraddau ymlyniad yn debyg iawn yn y ddau ddiwylliant (tua 65%).

**Mae'r teulu cnewyllol yn cynnwys dwy genhedlaeth: rhieni a'u plant. Mewn rhai diwylliannau, dyma'r norm, ond ni ddylid ei ystyried yn rhagorach neu'n israddol i aelwydydd sydd â nifer o genedlaethau**



Mego-studio / Adobe Stock



Mae gwahaniaethau diwylliannol yn dylanwadu ar ganlyniadau gweithdrefn y Sefyllfa Ryfedd mewn gwledydd gwahanol

Petro Feketa / Alamy Stock Photo

Fodd bynnag, roedd y canfyddiadau arddull ansicr-gwrthwynebol (*insecure-resistant*) yn amrywio'n arwyddocaol o'r rhai gwreiddiol gan Ainsworth. Cafodd tri deg dau y cant o'r babanod eu dosbarthu fel rhai ansicr-gwrthwynebol yn y sampl yn Japan (tua dwywaith canran y sampl yn UDA). Awgrymwyd bod y gwahaniaeth hwn yn ganlyniad i wahaniaethau diwylliannol mewn arferion magu plant. Roedd llawer o'r babanod Japaneaidd yn dangos lefelau eithafol o drallod wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu gofalwr. Mae hyn oherwydd mai'n anaml iawn y mae babanod bach yn Japan yn gadael ochr eu mam ac maen nhw bob amser yn agos atyn nhw. Felly nid ymlyniad ansicr oedd gan y babanod – roedd profiad y Sefyllfa Ryfedd yn achosi llawer o drallod iddyn nhw oherwydd nad oedden nhw'n gyfarwydd â hyn.

Wedyn mae ethnoganoledd yn dod i'r amlwg wrth i chi ystyried bod y safon Americanaidd ar gyfer ymddygiad plant yn cael ei weld fel y norm rydyn ni'n mesur arferion magu plant eraill yn ei erbyn ar draws y byd. Ethnoganoledd yw labelu'r 32% o fabanod Japaneaidd fel rhai sydd ag ymlyniad ansicr wrth ddefnyddio'r etig wedi'i orfodi hwn.

## Perthynoliaeth ddiwylliannol a sensitifrwydd diwylliannol

Er mwyn lleihau tuedd ddiwylliannol ac ethnoganoledd mewn ymchwil seicolegol, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar 'berthynoliaeth ddiwylliannol'. Perthynoliaeth ddiwylliannol yw'r cysyniad y dylai credoau, gwerthoedd a dealltwriaeth unigolyn o arferion diwylliant fod yn seiliedig ar safbwynt eu diwylliant. Mae hyn yn golygu na ddylai cymariaethau gael eu gwneud â safonau diwylliant gwahanol.

Mae 'sensitifrwydd diwylliannol' yn bwysig hefyd er mwyn lleihau unrhyw dueddiadau sy'n effeithio ar ganfyddiad unigolyn o bobl eraill. Mae gwybodaeth, ystyriaeth, parch, dealltwriaeth a theilwra i gyd yn agweddau ar sensitifrwydd diwylliannol. Er mwyn bod â sensitifrwydd diwylliannol, mae angen i unigolyn fod yn gwybod am arwyddocâd profiadau a chredoau person arall. Er mwyn dangos parch, mae angen i rywun fod yn ystyriol o'r gwahaniaethau mewn gwerthoedd rhwng y naill a'r llall, a'u gwerthfawrogi. Teilwra yw'r agwedd olaf; hynny yw, er mwyn llwyr ddeall diwylliant rhywun arall a bod yn sensitif iddo, mae angen i chi newid eich safbwynt a'ch credoau eich hunan er mwyn gweld ymddygiad dynol yn llawn o safbwynt y person arall.

Er enghraifft, roedd Americanwyr Affricanaidd yn y 1960au yn dangos cyfraddau uwch o anhwylder meddyliol tan i ymchwilwyr ddechrau mabwysiadu dull mwy emig – sylweddolon nhw ei bod hi'n ddiwylliannol briodol i Americanwyr Affricanaidd gael 'gweledigaethau' neu i glywed lleisiau oherwydd bod cysylltu â hynafiaid yn gred ddiwylliannol. Mae ystyried normau diwylliannol fel hyn yn cynyddu sensitifrwydd diwylliannol. Mae defnyddio dull emig fel hyn yn golygu nad yw normau prif ffrwd cymdeithasol a gwybyddol yn cael eu defnyddio gymaint mewn ffordd wahaniaethol.

## Diwylliannau unigolyddol Vs diwylliannau cyfunolaidd

Mae'n bwysig bod seicolegwyr yn gofalu nad ydyn nhw'n gwneud rhaniadau syml sy'n arwain at ragor o duedd ddiwylliannol. Un rhaniad cyffredin yw dosbarthu diwylliannau naill ai fel rhai unigolyddol neu gyfunolaidd. Mae rhoi gwerth ar gyflawniad personol a chanolbwyntio ar nodau annibynnol wedi cael eu disgrifio fel nodweddion cyffredin mewn diwylliannau unigolyddol, fel UDA a'r DU. Ar y llaw arall, roedd pobl sy'n byw mewn diwylliannau cyfunolaidd (fel China ac India) yn cael eu disgrifio fel rhai a oedd yn canolbwyntio ar nodau i'r grŵp i gyd, ac felly bod ganddyn nhw fwy o ryngddibyniaeth o fewn grwpiau.

Dydy cyffredinoli fel hyn ddim yn berthnasol, yn enwedig gan fod cymaint o amrywiadau o fewn unrhyw ddiwylliant. Er mwyn lleihau tuedd ddiwylliannol a chynyddu sensitifrwydd diwylliannol, mae angen i ymchwil ystyried isddiwylliannau yn y dyfodol.

## Casgliad

Er bod tuedd ddiwylliannol wedi bod ac yn parhau i fod yn broblem, mae seicolegwyr cyfoes yn fwy ymwybodol o bryderon fel hyn ac maen nhw'n dal i ddyfeisio dulliau fel bod gan seicoleg lai o duedd ddiwylliannol. Mae 'seicolegau brodorol' yn un strategaeth sy'n defnyddio perthynoliaeth ddiwylliannol ac sydd wedi cael ei rhoi ar waith. Dyma lle mae aelodau oddi mewn i ddiwylliant (neu isddiwylliant) yn gwneud ymchwil, yn hytrach na seicolegwyr y tu allan i'r diwylliant hwnnw sydd ddim efallai'n deall mân wahaniaethau'r ymddygiadau y maen nhw'n eu harsylwi. Efallai hefyd y byddan nhw'n defnyddio adnoddau mesur (er enghraifft profion seicolegol) sydd ddim yn berthnasol i leoliad diwylliannol gwahanol. Mae ymchwil gan unigolion oddi mewn i'r diwylliant yn ymagwedd emig.

Yn ein byd modern, mae diwylliannau'n dal i newid dros amser ac maen nhw'n cydgysylltu fwyfwy. Felly, mae ymchwilwyr yn gallu dod yn fwy sensitif yn ddiwylliannol wrth iddyn nhw ddod yn fwy cyfarwydd â'r gwahaniaethau. Gobeithio y byddwn ni'n gallu gweld gwell dealltwriaeth a pharch rhwng diwylliannau a fydd yn arwain ymchwil seicolegol i gyfeiriad cyn lleied â phosibl o duedd ddiwylliannol.

### ADNODDAU


Bond, M. H. a Smith, P. B. (1996) 'Cross-cultural social and organisational psychology', *Annual Review of Psychology*, Cyf. 47, tt. 205–35.

Takahashi, K. (1990) 'Are the key assumptions of the "Strange Situation" procedure universal? A view from Japanese research', *Human Development*, Cyf. 33, tt. 23–30.



**Gwnaeth Lauren Kwok** radd meistr mewn datblygiad plant annodweddiadol ym Mhrifysgol Queen's Belfast. Mae hi'n bennaeth seicoleg yn Ysgol Sherborne ac yn arholwr.